

Myfyrdod Corwynt Cariad y Grawys



Profiad rhyfedd oedd crwydro un min nos yng nghwmni Cheryl a Bethan i ganolfan siopa fawr a drud yng nghanol Manila. Roedd y siopau cyfarwydd i gyd yno – Marks and Spencer, Next, Dorothy Perkins ayyb a bwrlwm a phrmysurdeb mawr. Mae pobl y Philipinas yn hoff iawn o ganolfannau siopa. Daethom i'r casgliad fod teuluoedd cyfan yn treulio diwrnod yno er mwyn bod allan o wres yr haul a mwynhau moethusrwydd y systemau awyru oedd yn cadw'r llefydd hyn yn 'cool'! Dyna'r unig fantais allwn i weld o fod ynddynt beth bynnag. Ond wedi deud hynny dydw i fawr o un am hel siopau!

Ond wrth grwydro yn y ganolfan arbennig yma yn agos at ein gwesty dyma ddod yn ymwybodol fod cerddoriaeth yn cael ei chwarae o un o'r siopau mawrion – a bod y ffownten oedd ynghanol y sgwâr o flaen y siop yn dawnsio. Wir yr rŵan – welais i rioed y fath beth – ond roedd *jets* dŵr y ffownten yn symud i rythm y gerddoriaeth a phan newidiodd y gân, newidiodd dawns y ffownten hefyd. Roedd y tair ohonom wedi'n cyfareddu, yn gegwrth am tua phum munud cyn i ni ddechrau chwerthin yn wirion.



Pam chwerthin, meddwch chi? Dwi ddim yn siŵr ond dwi'n credu fod y tair ohonom, ar yr un eiliad, wedi cael ein taro gan hurtrwydd y byd a thrychineb yr anghyfartaledd oedd mor amlwg o'n blaenau. Y prynhawn hwnnw roeddem wedi bod yn crwydro un o slymiau'r ddinas lle'r oedd y bobl yn brwydro i

gael y gwasanaethau sylfaenol – dŵr glân, toiledau a thrydan. A dyma ni – o fewn tafliad carreg bron i gymunedau llawn mor dlawd, yn gwyllo – ac yn mwynhau gwyllo – ffownten yn dawnsio.

Yn nameg yr Heuwr mae Iesu'n sôn am 'hudoliaeth golud' – y drain sy'n tagu'r hedyn rhag cyrraedd ei lawn dwf. A dyma ni'n byw ynghanol hynny o ddydd i ddydd heb feddwl am y peth.

'Da ni'n lwcus mai pobl sy'n gallu rhoi ydan ni yn hytrach na'r rhai sy'n gorfod derbyn.'

Dyna glywais i'n ymateb i oedfa arbennig i gofio ffoaduriaid yn ddiweddar. Gwir y gair!



'Arglwydd, yn dy drugaredd, gwranddo ein gweddi. Arbed ni rhag i'n hofn cudd o fod heb ddigon ein gwneud yn grintachlyd ac yn orofalus o'n cyfoeth. Cyffwrdd ni yng ngrym dy gariad a boed i'n cyfraniadau fod yn wir fynegiant o'th haelioni diamod Di tuag atom. Gwna'n bywydau'n ddawns fyrlymus dy lawenydd a'th obaith i'r byd. Amen.'

Her y dyfodol – Cwestiynau o'r Alban

Rhoesom sylw eisoes i ddwy ddarlith flaenorol gan y Parch Ddr Doug Gay yn ei Ddarlithoedd Chalmers eleni. Mae'r awgrymiadau a wnaed ganddo yn ei drydedd ddarlith am yr angen am ail-strwythuro'r enwad cyfan yn swnio'n berthnasol iawn i'n dyheadau yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru am ffeindio 'ffordd ymlaen' sefydliadol.

Man cychwyn bywyd eglwys Presbyteraidd yw'r rhagdybiaethau 'ffederal' sy'n ganolog i'w diwinyddiaeth. Sail y ffederaliaeth honno yw'r 'cyfamod' – sydd yn ei hanfod yn wahanol i 'gytundeb

cyfreithiol'. Mae'r cyfamod hwnnw yn hybu cyd-ddealltwriaeth ac yn rheoleiddio'r berthynas rhwng y lleol, taleithiol a chenedlaethol, hynny yw'r berthynas weithredol sydd rhwng cynulleidfâ, henaduriaeth a Chymanfa Gyffredinol (diddymwyd ei Synodau-cyrrff efallai fyddai'n debyg i'n Sasiynau ni – tua 25 mlynedd yn ôl).

Er nad oedd ei awgrymiadau o angenrheidrwydd yn 'newydd,' meddai Dr Gay, roedd ei awgrymiadau'n sawru o freuddwyd rhaglen deledu *Grand Designs* lle mae hen adeilad, neu furddun, yn cael ei adnewyddu i

fod yn gartref deniadol, cyfoes. Cawn ddychwelyd at rai o'i awgrymiadau yn y dyfodol. Ond am y tro gadewch i ni fyfrio ar ei alwad cychwynnol.

'Y mae **diwygiad sefydliadol effeithiol** yn ail ffocysu gweledigaeth sefydliad ar ei chenhadaeth greiddiol a'i werthoedd canolog. (Mae hyn meddai yn wir am sefydliadau o bob math!) Ar sail hynny mae'n aildrefnu ei waith a'i wariant ar y blaenoriaethau sy'n llifo o'r genhadaeth honno. Nid yw'n gorff sy'n gwybod pris popeth a gwerth dim. Fe geisia adnabod

(parhad ar dudalen 2)

Heol y Dŵr

Trist oedd gweld datgorffori eglwys hynafol Heol y Dŵr, Caerfyrddin yn niwedd 2016. Dyma un o gadarnleoedd Methodistiaeth Cymru, a hynny yng nghrud diwygiad y ddeunawfed ganrif.

Sefydlwyd y seiat gyntaf fel canlyniad i ymweliad Hywel Harris â'r dref yn 1738. Wedi cyfnod o gwrrd mewn gwahanol bebyll, cawsant gartref yn y capel a godwyd gan Peter Williams yn 1771. Pan ddiarddelwyd yr hen esboniwr bu'n rhaid i'r seiat symud i Barc y Brodyr ond, yn unol â'i ddymuniad, gwerthwyd yr adeilad iddynt gan ei wedd yn 1797 am £300.

Cyfarfu'r Sasiwn am y tro cyntaf yng Nghaerfyrddin yn 1743 a buan y daeth yn fan cyfarfod i'r diwygwyr, a phregethwyd yno gan George Whitefield a John Wesley. Un o sylfaenwyr y seiat oedd David Bowen, Pibwr Lwyd a fu'n Uchel Siryf Sir Gaerfyrddin yn 1763 a hefyd ei fab John Bowen. Dyma deulu Thomas a David Charles ac

ymunodd y ddau â'r seiat pan ddaethant i Gaerfyrddin o San Clêr, Thomas i ymbaratoi ar gyfer yr offeiriadaeth a David fel prentis gwneuthurwr rhaffau. Daeth David Charles yn fasnachwr llwyddiannus ac yn 1787 dewiswyd ef yn flaenor ac yn arweinydd y gynulleidfa. Tyfodd yr eglwys o 92 yn 1801 i 176 yn 1806 a diogelwyd yr hawl i weinyddu'r cymun yno. Gweinyddodd David Charles sacrament Bedydd cyn i Thomas Jones gymryd y cam hwnnw yn Ninbych ac er mai dim ond yn 1807 y dechreuodd bregethu, fe'i hordeiniwyd yn Llandeilo Fawr yn 1811.



REV. DAVID CHARLES (CARMARTHEN),
1762-1834.

drwy Lyfr Bedyddiadau'r eglwys, mai masnachwyr, crefftwyr a phobl gyffredin a ymdrechodd i'w adeiladu – a phrin oedd amgylchiadau llawer ohonynt. Erbyn 1820 'roedd saith Ysgol Sul yn gysylltiedig â'r eglwys, gyda chyfanrif o dros fil o aelodau. Yn 1823 cyhoeddwyd cylchgrawn *Yr Addysgydd* ar gyfer yr Ysgol Sul a cheir ynddo ddarlun o'r capel yn dangos pulpud uchel, grisiau i'r llofft yn esgyn o'r tu mewn i'r adeilad, ond heb seddau ar ganol y llawr. Dros y blynyddoedd gwnaed cyfnewidiadau – pulpud, organ, a sedd fawr o bren mahogani ysblynydd, y seddau ar ffurf

'amphitheatre', a ffenestri lliw hardd. Yn wreiddiol, ceid ffenestr uwchben y ddau ddrws sy'n fynedfa i'r capel o bob ochr i'r pulpud. Yn y rhain oedd llun colomen uwchben Beibl agored – a dyna sail arwyddlun y cyfundeb.

Yn 2013 cyhoeddwyd cyfrol werthfawr gan Mrs Marina Thomas yn olrhain hanes Heol Dŵr gan gynnwys lluniau o brif nodweddion yr adeilad. Nodir y bu deuddeg o weinidogion yn gofalu am yr eglwys er dyddiau Peter Williams. Nodir yn

arbennig ymweliad blynyddol y Parchg Ddr Martyn Lloyd Jones â'r eglwys bob mis Medi am dros hanner canrif, y capel bob amser dan ei sang, a meinciau ymhob ale. Fel arall bu'r hanes y blynyddoedd diwethaf, gydag ychydig ffyddloniaid yn cadw'r drws ar agor o Sul i Sul.

Trist yw meddwl fod y drws wedi cau am y tro olaf, a'r gynulleidfa o lai na 30 wedi gwasgaru. Yn ystod y flwyddyn, datgorfforwyd hefyd eglwys Bethania a Zion, yr eglwys Saesneg, yn golygu nad oes gennym bellach dystiolaeth yn y dref lle profwyd gynt fawrion weithredoedd Duw.

J E Wynne Davies

Her y dyfodol

(parhad o dudalen 1)

gwerth pob peth er mwyn prisio'i flaenoriaethau.

Y mae'n ddewr heb fod yn ddiostur, yn feiddgar heb fod yn rhyfygus.

Y mae **ailstrwythuro moesegol** yn mynnu ei fod yn ymgynghori'n helaeth ac yn ofalus o'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ei weithrediadau.

Y mae **diwygio sefydliadau'r Eglwys** yn deall bod diwygio yn dasg ysbrydol a gweddigar; mae'n ymgeisio at gael ei arwain a'i fywiogi gan yr Ysbryd Glân, ac mae diwinyddiaeth genhadol a bugeiliol yn ganolog iddi. Nid yw yn sefydliadol '*belagaid*' – yn credu y gall gwblhau gwaith Duw drwy ei alluoedd, ei ymdrechion a'i drefniadaeth ei hun. Nid yw chwaith yn sefydliadol '*docetaidd*', yn anghofio fod Duw yn gweithredu drwy brosesau dynol naturiol – h.y. ein cynlluniau, sefydliadau a strategaethau. Y mae ots ganddo am heddwch ac undod yr eglwys. Mae'n rhoi gwerth ar yr eglwys fel cymuned sy'n canfod, yn dirnad a phenderfynu. Daw ei arwyddair canolog o Actau 15 'penderfynwyd gan yr Ysbryd Glân a chennym ninnau.' Ac fe ddylai gael ei aflonyddu'n barhaol gan 1 Corinthiaid 13 – gan y consyrn os gweithredwn hyn oll heb gariad yna yr ydym yn ddim ac nid ydym ar ein hennill o gwbl.'

Tybed nad yw heriau o'r fath yn berthnasol i ni yma yng Nghymru wrth i ni gloriannu ymdrechion ailstrwythuro yn y gorffennol ac wrth i ni wynebu'r her o addasu'n greadigol i'r dyfodol?

Os oes gennych farn neu ymateb, cofiwch ddanfôn eich sylwadau atom.

Gol.



Capel Heol y Dŵr, trwy garedigrwydd Morgan&Davies arwerthwyr.

Sylweddolwyd fod angen capel helaethach a David Charles, fel Trysorydd yr eglwys, a'i llywiodd i agor y capel presennol, Tachwedd 5ed 1813. Diogelwyd holl fanylion ariannol adeiladu'r capel a gwelir, wrth edrych

Taro'r Post



Annwyl Olygydd,

Roeddwn yn chwilio am ddyddiad Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd am 2017. Nid oedd yn Nyddiadur Y Goleuad felly edrychais am wybodaeth o wefan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru.

Er chwilio yn ddyfal nid oedd y dyddiad i'w gael yn unman. Roedd y Calendr Cyfundebol yn gorffen ar Orffennaf 11, 2016 ac yn y

Dyddiad roedd tri cyhoeddiad yn 2017, un am Hyfforddiant i Drysoryddion, un i Arfogi" sef penwythnos i ieuencid yn y Bala ac un am gyfarfod ym Mhontyberem i ddathlu geni Williams Pantycelyn. Roedd ffeil y Bwletin Cenhadol yn wag ond cefais hyd i ôl-rifynnau hyd at Rif 71 (Hydref 2015) yn adran y Chwiorydd.

Tybed ydy E.B.C. wedi mynd i drymgwsg dros y gaeaf? Beth yw pwrpas gwefan os nad yw'n cael ei diweddarau yn gyson?

Yn gywir,

Glyn Davies, Rhuthun